PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU
15, Rhagwr 2010

**ADRODDIAD Y CYFREITHIWR**

---

## PWNC: GOBLYGIADAU HAWLIAU DYNOL

Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol, ers yr 2[ail] Hydref 2000, yn galluogi'r hawliau sydd wedi eu gosod yn y Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol i fod ar gael yn uniongyrchol yn Llysoedd Prydain. Atgoffwyd Aelodau fod adroddiadau ynghylch yr hawliau hyn wedi'u hystyried gan yr Awdurdod llawn yng nghyfarfodydd a gynhaliwyd ym Mehefin a Medi 2000.

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod deddfwriaeth gyfredol, hyd y mae'n bosibl, yn cael ei ddehongli a'i weithredu mewn modd sy'n gydnaws â hawliau'r Cytundeb. Ymhellach, fe fyddai'n anghyfreithlon i awdurdodau cyhoeddus weithredu mewn modd a fyddai'n anghydnaws â hawliau'r Cytundeb.

Yn y maes cynllunio, gallai hawliau perthnasol ymwneud â cheiswyr am ganiatâd cynllunio yn ogystal â phartïon eraill y medrai'r datblygiad arfaethedig effeithio'n andwyol arnyn nhw.

O ganlyniad mae'n hanfodol fod y modd y mae'r Awdurdod yn penderfynu materion cynllunio yn cael ei nodweddu gan chwarae teg, a bod yr Awdurdod yn taro cydbwysedd teg rhwng y diddordeb cyhoeddus, fel y caiff ei adlewyrchu yn neddfwriaeth Cynllunio Gwlad a Thref, a hawliau a diddordebau unigol.

Felly, mae adroddiadau y Swyddog Rheoli Datblygu sy'n dilyn, wedi eu llunio'n bwrpasol i gymryd ystyriaeth o'r Cytundeb ar Hawliau Dynol. Yn benodol:

1. Wrth asesu pob cais, gwnaed pob ymdrech i ystyried, ac i osod gerbron yr Aelodau, yr holl ddadleuon a gyflwynwyd:

   (a) gan y rhai hynny sydd yn chwennych caniatâd cynllunio;
   (b) gan y rhai hynny sydd yn gwrthwynebu rhoi caniatâd cynllunio, a
   (c) chan y rhai hynny sydd yn awgrymu y byddai amodau'n briodol petai caniatâd yn cael ei roi.

2. Mae pob cais cynllunio a fyddai'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn destun Gwerthusiad ac Argymhelliad unigol. Ynghlwm yn hyn mae cydbwysedd o ran diddordebau a fyddai'n groes i'w gilydd.